BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 21, 2025

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Ionawr 21, 2025 am 7:30 o'r gloch.
www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith (Cadeirydd) Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Robin Jones. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Mewn ymateb i lythyr (2/12/20124, gweler isod) bydd Heledd Parri o Hwyluswyr Tai Gwledig, Grŵp Cynefin yn bresennol yn ein cyfarfod i drafod sut i fynd ymlaen gyda'r ymgynghoriad a beth fydd angen ei wneud ynglŷn ag Arolwg Tai Llanfachreth. Mae'n bosib bydd Swyddog o Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn bresennol.

Roedd Heledd Parri wedi ymddiheuro nid oedd yn bosib iddi fod yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Llion Williams.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 19, 2024.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5 Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 19, 2024.

Eitem 10.1. Llythyr ateb (2/12/2024) oddi wrth Grŵp Cynefin yn rhoi gwybod bydd y gwaith yn golygu mynd trwy archwilio data a thrwy ddefnyddio amrywiol dechnegau ymgynghori gan gynnwys holiaduron, diwrnodau agored a llythyru'r gymuned. Mi fydd y llythyr yn cynnwys linc fydd yn gofyn i bobl gwblhau holiadur anghenion tai ar-lein a bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r diwrnod agored bydd yn cael ei gynnal yn y gymuned. Ni fyddant hawlio dim am yr adroddiad ei hun ond fyddant yn gofyn i ni dalu am gostau postio'r llythyrau i'r gymuned a'r gost ar gyfer llogi'r neuadd ar gyfer y diwrnod agored.

O'r llythyr, maent angen mynychu ein cyfarfod ar ôl y Nadolig i drafod sut i fynd ymlaen gyda'r ymgynghoriad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cysylltu â Cerys Williams, Rheolwr Prosiect, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i ofyn iddi gyfarfod ni i drafod y cynllun mae Cyngor Gwynedd yn ei baratoi i ddatblygu safle yr hen Ysgol Llanfachreth a'r maes parcio. Ond cyn cael cyfarfod gofyn iddi am i ni gael gweld y cynllun sydd yn cael ei baratoi, yn enwedig y plan o'r safle, hynny yw, lleoliad y tai ac adeiladau eraill.

Eitem 6.dd. Llythyr ateb (20/11/2024) oddi wrth Wasanaethau Corfforaethol, Cyngor Gwynedd a llythyr (13/12/2024) oddi wrth Cymunedau Cymraeg, Llywodraeth Cymru yn diolch am y llythyr ac yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd yn croesawu adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Llythyr (29/11/2024) oddi wrth Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai gyda gwahoddiad i gyfarfod lle bydd Cadeirydd y Comisiwn, Dr Simon Brooks yn bresennol i drafod yr adroddiad. Cynhelir y cyfarfod yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, ar ddydd Gwener Rhagfyr 6, 2024 am 7.00yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 6.e. Llythyr (6/12/2024) (trwy law Gerallt) oddi wrth Guthrie Jones & Jones oedd angen gwybod enw cywir y Cyngor a bod Rhydymain yn y gymuned, hyn at Cofrestru Tir Neuadd Llanfachreth a'r maes parcio.

Rhoddwyd manylion Cyngor Gwynedd oedd yn y llythyr yn Eitem 6.ff. (Cofnodion cyfarfod Tachwedd 19, 2024) .

Llythyr (16/1/2024) oddi wrth Guthrie Jones & Jones gyda llythyr oddi wrth Cofrestr Tir ynglŷn ein Cais. Mae'r tir (lliw glas ar y plan) yn rhan o dir Lower Deer Park Lodge, Tan y Foel, Boethuog, Llanfachreth. Mae Guthrie Jones & Jones angen gwybod os mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ac yn rhan o faes parcio. Mae Cofrestr Tir angen tystiolaeth bod y Brydles rhoddwyd ar 3 Ebrill 1969 wedi dod i ben, a bod y tir wedi cael ei ddefnyddio ac yn rhan o'r Neuadd Bentref heb ganiatâd y perchenog ers diwedd y Brydles. Mae rhent sydd ddim yn cael ei dalu ddim yn golygu bod y Brydles wedi dod i ben. Maent angen gwybod os mae'r Brydles wedi dod i ben. Bydd llythyr neu Rybudd sydd wedi cael ei roi gan y Perchennog neu Ymddiriedolwyr o'r Neuadd yn cadarnhau terfyniad y Brydles o gymorth. Mae'r Cofrestr Tir wedi rhanu'r cais i CYM870219 (Hall) a CYM870218 (Car park).

Penderfynwyd i Gerallt Griffith cysylltu â Guthrie Jones & Jones ynglyn â'r mater.

Eitem 6.b. Llythyr (20/12/2024) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith o newid camfeydd ystol i giatiau ar lwybr march rhif 66/68 (Cae-cwrth – Ystumgwadnaeth), Llanfachreth wedi ei gwblhau. Amgáu mae lluniau o'r gwaith. Rhoddwyd cais i'r Adran i wneud y gwaith hwn yn y gorffennol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd gwybod (19/1/2025) gan Karen bod y gwaith o osod dwy giât ar y llwybr wedi cael ei wneud.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/11/2024) oddi wrth Cwmni Egnio yn amgau eu dogfen Prosbectws Niwclear yn rhoi y manteision sydd gan ogledd Cymru tuag at gael niwclear sifil newydd. Bydd Fforwm Niwclear Cymru yn cael ei gynnal ar 28/11/2024 i drafod y ddogfen. Mae angen gofrestru cyn 22/11/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (26/11/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant ar Dachwedd i Mawrth 2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (27/11/2024) oddi wrth Cynllunio, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd wedi derbyn adroddiad 'Gynllunio a Chymunedau Cymraeg'. Maent yn atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref mae ganddynt ryddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol gall datblygiadau cynllunio lleol ei gael ar ardal yn enwedig ar gymunedau Cymraeg bregus.

Nid yw'r mater i ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (29/11/2024) oddi wrth Pennaeth Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn gwahodd ni i sesiwn galw-i-mewn i drafod dyfodol safle Ysgol Machreth gyda Chyngor Gwynedd.
Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i drigolion lleol rannu eu barn a'u syniadau am ddefnydd y safle hwn yn y dyfodol. Mae eich mewnbwn yn werthfawr, ac rydym yn annog pawb sydd â diddordeb yn y safle i ymuno â ni. Bydd y sesiwn yn cael ei gynal yn Neuadd Bentref Llanfachreth ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 10, 2024 rhwng 4.00 a 6.00yh.
Os oes gan unrhyw gwestiynau neu angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â tai@gwynedd.llyw.cymru

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau ac i Reolwr Cartrefi Fforddiadwy, Grŵp Cynefin.

Llythyr ateb (2/12/2024) oddi wrth Reolwr Cartrefi Fforddiadwy yn rhoi gwybod bydd eu ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd.

Llythyr (2/12/2024) gyda phoster oddi wrth Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd am y cyfarfod ar safle Ysgol Machreth ar 10/12/2024.

Anfonwyd y llythyr a'r poster i'r aelodau.

O'r sesiwn cafwyd 32 o ymelwyr yn gwneud ymoliadau.

d. Llythyr (30/11/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Canllawiau Digidol - Defnyddio Storfa Gwmwl ar gyfer Rheoli Dogfennau'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (3/12/2024) oddi wrth Liz Saville Roberts yn cynig cefnogaeth i'r Cyngor. Mae'n rhestri ei chyfrifoldeb yn Senedd San Steffan a chyfrifoldeb Mabon ap Gwynfor yn Senedd Caerdydd. Mae'r ddau yn awyddus cael profiad y cyhoedd ar:

1. Newid llinellau ffôn analog i linellau ffôn digidol.
2. Metrau clyfar ar gyfer trydan a nwy.
3. Tlodi ynni a chredyd pensiwn.

Mae Mabon ap Gwynfor yn gwneud deiseb i ddiogelu gwasanaethau Reilffordd y Cambrian. Mae ymdrech yn cael ei wneud i gadw pobl ifanc yn yr ardal trwy gael cyfleoedd mewn addysg, gwaith a thai fforddiadwy.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Atebwyd y llythyr (4/12/2024) yn rhoi gwybod:

1. Mae pentref Llanfachreth yn un o'r ardaloedd sydd heb signal ffôn symudol ac o ganlyniad ni all trigolion gael metrau clyfar yn eu cartrefi. (Gan Geralllt).
2. Bydd y Dreth Etifeddiaeth, sy'n dod o dan oruchwyliaeth San Steffan, yn debygol o gael effaith andwyol ar gefn gwlad Cymru yn ei ffurf bresennol. (Gan Emlyn).

e. Llythyr (4/12/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Ffordd Dosbarth III gyferbyn â Coed y Moch ar gau ar 4/12/2024 am 3 diwrnod. Mae'r gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch yn ystod gwaith atgyweirio argyfwng ar wasanaeth i eiddo cyfagos.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (12/12/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd o Coed y Moch i Maes y Bryner, Llanfachreth ar gau ar 12/12/2024 am nid hwy na 3 diwrnod i Openreach gwneud gwaith i adfer polion diffygiol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (17/12/2014) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mi fyddant yn gosod pyst cyfeirbwynto ac agor llwybr trwy'r coed ar lwybrau 16,17 a 30 yn Hermon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (17/12/2024) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig mewn perthynas â'r arolwg o Etholaethau'r Senedd'. Os mae unrhyw sylwadau eu gwneud maent angen eu cael cyn Ionawr 13, 2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (30/12/2024) oddi wrth Institution of Occupational Safety and Health yn rhoi gwybod mae gwahoddiad i gyfarfod Safety in Farming Day 2025 bydd yn cael ei gynnal yn Venue Cymru, Llandudno ar 15/4/2025 am 9:00yb – 4:00yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (7/1/2025) oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd gyda rhestr o grantiau sydd ar gael.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (8/1/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y ffordd o Maesnewydd i Bryn Gwern ar gau ar 8/1/2025 am 1 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae'r gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch yn ystod gwaith Openreach.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

l. Llythyr (17/1/2025) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen yn rhoi esboniadau i ymadroddiadau sy'n cael eu defnyddio.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ll. Llythyr (19/1/2025) oddi wrth Cylch yr Iaith yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru yn ystyried argymellion adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. I ddangos cefnogaeth i'r argymhellion a chryfhau'r alwad am eu gweithredu maent yn gofyn i ni anfon y llythyr sydd wedi ei baratoi i'r Llywodraeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon y llythyr iddynt.

m. Llythyr (20/1/2025) oddi wrth Cyfeillion Llŷn yn gwahodd ni i ymuno efo Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn gweithio tuag at y nod o warchod a chynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg. Maent angen gwybod os byddwn yn mabwysiadu :- Polisi Iaith, Tystysgrif ardal o arwyddocâd ieithyddol, Memorandwm o ddealltwriaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cadw i Bolisi Iaith sydd gan y Cyngor.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/477. Adeiladu estyniad deulawr, ffenestri dormer blaen newydd a newidiadau eraill i'r tŷ Pen y Banc, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio (17/12/2024).

b. Cais cynllunio NP5/54/LB194G. Rhyddhau Amod 6 (Grisiau mewnol) ynghlwm i Ganiatâd Adeilad Rhestredig NP5/54/LB194C dyddiedig 01/12/2022. Ysgubor Cae'r March, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio (30/12/2024).

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (10/12/2024) oddi wrth Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen manylion ein praesept 2025/26 erbyn Ionawr 31, 2025.
Anfonwyd manylion Sylfaen Drethiannol Cymunedau Gwynedd oedd efo'r llythyr i'r aelodau.
Anfonwyd manylion y Praesept sydd ei angen i'r aelodau (11/12/2024). Awgrymwyd i'r praesept fod yn £12,000 fel mae wedi bod ers 2021-2022.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £12,000.00.

b. Anfonwyd (11/12/2024) bil A.M. Ashton am £2,325 i glirio llwybrau y gymuned a thacluso y 4 lloches bws i Gyngor Gwynedd am ad-daliad.
Derbyniwyd (6/1/2025) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2024/2025.

c. Llythyr (6/12/2024) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (6/1/2024) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol i gyhoeddi y llyfryn Llên y Llannau. Amgáu mae copi o'u fantolen ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/11/2024: £1,182.45.
Balans yn y banc ar 29/11/2024: £11,159.24.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/12/2024: £1,184.28.
Balans yn y banc ar 29/12/2024: £10,891.04.

9. Archwilio

10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Mae angen bin halen rhwng Gernant ac Esgairgawr, Drwsynant gan fod angen mynd i fynny y ffordd i Brith Fryniau.

Cafodd y Clerc wybod (12/12/2024) gan Priffyrdd, Cyngor Gwynedd nid yw'r ffordd sy'n mynd i Brith Fryniau yn ffordd cyhoeddus.
Cafodd wybod hefyd nid yw'r cyhoedd yn defnyddio'r halen yn y binniau. Mae hyn yn gyffredin trwy'r sir.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Priffyrdd bod angen bin halen ar y lleoliad a'i osod wrth Gernant.

b. Llythyr (18/12/2024) oddi wrth Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn hysbysu cyfle i bobl leol, ffermwyr, busnesau bach i dendro am waith 'Cytundeb Torri Gwair Gwledig 2025', un gyda rheolaeth traffig a'r llall heb reolaeth traffig.

Anfonwyd y llythyr a'r poster i'r aelodau.

c. Mae Mabon ap Gwynfor AS wedi trefnu bydd y Senedd yn trafod dyfodol Coed y Brenin a Nant yr Arian ar 8/1/2025 ac mi fydd yn cael ei ddangos ar Senedd.tv.

Anfonwyd y neges i'r aelodau.

Llythyr (8/1/2024) oddi wrth Mabon ap Gwynfor AS yn rhoi gwybod bydd y ddadl ar yn cael ei gynnal ar 22/1/2024.

Anfonwyd y neges i'r aelodau.

d. Materion lleol i'r Cyngor Cymuned:

1. Materion wedi eu codi yn sgil y tywydd garw a hefyd storm 7/12/24.
Rhoddwyf Cymorth i nifer o drigolion yr ardal gyda materion Openreach a signal ffôn.
Rhai trigolion wedi bod heb gysylltiad am fwy na 6 diwrnod.
Yr oeddwn yn llwyddiannus mewn nifer o achosion ond dim pob un.

2.Graeanu a materion ffyrdd:
Cafwyd cais gan nifer o drigolion yn byw ar ffyrdd ddi-dosbarth am gymorth.
Mae polisi y Cyngor Sir yn dweud fod ffyrdd A a B yn cael ei graeanu yn rheolaidd a ffyrdd di ddosbarth yn cael sylw yng ngolau dydd os bydd amser a hi yn ddiogel i staff wneud hynny.
Byddaf yn diolch ar ran y Cyngor Cymuned i Adran Priffyrdd am ei gwaith da ac am lefel uchel o sgiliau eu gyrrwyr loriau lleol.

3.Materion Treth Busnes.
Rhoddwyd cymorth i etholwr lleol gyda mater treth busnes oedd yn gymhleth ond cefais ddatrysiad iddi ar y cyd a swyddogion y Cyngor.

4.Ailgylchu yn ardal Rhydymain.
Bu diffyg gyn y casgliad lleol am dair wythnos ar ôl y Nadolig.
Mae swyddog y Cyngor wedi fy sicrhau erbyn hyn nas fydd y cam ddealltwriaeth rhwng y fan fach ar fan fawr yn y lleoliad ddim yn digwydd eto.

dd. Materion y Ward.

1. Cafwyd llifogydd i Mewn i dri chartref yn Llanelltyd 7/12/24.
Mae NRW wedi gwrthod cyfrifoldeb am y dinistr gan mai ei barn nhw oedd mai "ordinary surface water" oedd y broblem dim llif yr afon Wnin yn Llanelltyd.
Mae Steffan Jones o'r Cyngor Sir wedi gwneud gwaith ar yr afon cyn 24/1/25 sydd yn cynnwys symud cerrig mawr o'r afon fel bod y dŵr yn llifo o dan y bont yn Llanelltyd.

2. Coed y Brenin – Mae Mabon ap Gwynfor wedi llwyddo i gael dadl yn y Senedd 22/1/25 am Coed y Brenin, Nant yr Arian ac Ynyslas.
Dadl dda iawn o ran Mabon ond collwyd y bleidlais o ddwy bleidlais gan i'r Blaid Lafur wrthwynebu y cynnig i roi y lleoliadau i fudiadau cymunedol i redeg y gweithgareddau.

3. Cyllideb y Cyngor Sir 2025-26
Mae £8.3M o ddiffyg yn cyllideb y Cyngor gan mai dim ond setliad o 3.2% y cafwyd gan Llywodraeth Cymru.
Mae gorwariant mawr mewn 5 Adran gyda 83% o'r gorwariant wedi ei greu gan Adran Oedolion gan fod cynnydd yn anghenion gofal pobl hyn y sir.
Mae Delyth wedi bod yn rhan o weithdy trafod argymhellion ar gyfer toriadau.
Mae Delyth yn cychwyn fel Aelod o Barc Eryri 22/1/25 ac fel Is Gadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau 23/1/24.

11. Materion yr Aelodau

a. Eitem gan Emlyn. Rhoddwyd gwybod i Briffyrdd am ddamwain oedd ar riw Station, Drwsynant bore 20/11/2024. Gofynnwyd iddynt roi sylw i' r ffordd pan fydd rhagolygon tywydd rhew /eira ac iddynt raeanu'r ffordd.
Cafodd gwaith graeanu'r fordd ei wneud yn 21/11/2024.

Llythyr (8/1/2025) oddi wrth Emlyn i Delyth yn rhoi gwybod mae angen rhoi gwybod i Briffyrdd bod Rhiw Drwsynant yn ddifrifol o lithrig ac mae'r bin halen yn wag (wedi gwagio dros y dyddiau diwethaf). Mae Cyngor Gwynedd wedi cael gwybod gan un o'r trigolion bod y bin halen yn wag.

b. Mae gan Ward Machreth 6 o gynghorwyr – Gerallt, Meurig, Robin, Peredur, Llion, a Karen. Nifer o gynghorwyr sydd i fod – 8.

Penderfynwyd hysbysu am 2 cynghorwr.

Mae gan Ward Brithdir 3 o gynghorwyr - Emlyn, Geraint, a Rhun. Nifer o gynghorwyr sydd i fod – 4.

Penderfynwyd hysbysu am 1 cynghorwr.

Llofnod: Dyddiad: